**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board**

# Defnyddio eli Clobetasol Propionate 0.05% (Dermovate®)

## Taflen Wybodaeth i Gleifion

Dylech daenu eli Clobetasol yn gynnil ond yn ddigonol (sy'n golygu o hanner i un blaen bys cyfan) ar y man(nau) yr effeithir arnynt. Dyma'r mannau ble rydych yn sylwi ar gosi/anghysur neu newidiadau i'r croen. Caiff eli ei ffafrio'n hytrach na hufen oherwydd ei fod yn amsugno'n well ac yn achosi llai o lid.
Taenwch yr eli:

**Unwaith y dydd am 1 mis**
**Yna bob yn ail ddiwrnod am 1 mis**
**Yna ddwywaith yr wythnos am 1 mis**
**Yn yr hirdymor, dylid ei daenu ddwywaith yr wythnos gan gynyddu amlder pan fyddwch yn cael pwl**

Dylai un tiwb 30g o eli clobetasol bara o leiaf 3 mis. Ni ddylai'r swm hwn beri i chi gael effeithiau andwyol ar y croen a gaiff ei drin nag unrhyw le arall ar y corff.

Os ydych yn profi pwl o symptomau ar ôl cwrs o 4 mis, gallwch ddefnyddio'r eli clobetasol bob nos am 2 wythnos i drin y pwl ac yna ceisio lleihau'r amledd fel y nodir uchod. Mae defnydd hirdymor yn ddiogel cyn belled â bod un tiwb 30g yn para o leiaf 3 mis. Gall mwy na hyn achosi i'r croen deneuo.

Dangosodd astudiaethau bod triniaeth sy'n cydymffurfio â Dermovate® yn atal cynnydd  Lichen Sclerosus i ganser y fwlfa, gan ei fod yn lleihau llid cronig.

Mae'n arferol i sylwi ar losgi am ychydig funudau ar ôl taenu'r eli. Fodd bynnag, os sylwch ar losgi yn y man am fwy nag 1-2 awr ar ôl taenu'r eli, efallai eich bod yn sensitif i un o'r cynhwysion.



Ffigwr: Delwedd yn dangos un blaen bys o'r eli

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**